

"**BARDD** y piano oedd Ceiriog; bardd y gyngerdd." Gwenallt biau'r geiriau, a hwyrach bod angen eu pwysleisio eleni yn fwy nag erioed, a ninnau'n cofio ei bod hi'n ganmlwyddiant marw'r prydydd. Bu eisoes dros y misoedd diwethaf gryn feirniadu ar Ceiriog gan rai a gofiodd ei bod hi'n adeg addas i'w drafod, ond ychydig o blith y beirniad hynny a fu'n ddigon mentrus i roi eu llinyn mesur ar rai o gerddi adnabyddus y bardd a sylweddolodd mai cerddi a luniwyd i'w canu oeddynt, yn hytrach na gweithiau y gellid eu hystyried yn ddarnau prawf cymwys ar gyfer rhai o gystadleuthau adrodd yr eisteddfod!

Roedd cymwynas Ceiriog ag alawon Cymru yn cymharu'n ffafriol â chymwynas Thomas Moore â cherddoriaeth frodorol Iwerddon, neu gymwynas Robert Burns â cherddoriaeth yr Alban, a hoffwn gredu i'r naill a'r llall o'r cymwynaswr hynny ddylanwadu arno yntau.

Pwy a all hymian canu 'The harp that once through Tara's Hall' neu 'Tis the last rose of summer', neu 'The minstrel boy', heb alw i gof eiriau Thomas Moore sydd erbyn hyn yn anwahanol gysylltiedig â'r alawon hynny?

A phwy sy'n gwybod y mymryn lleiaf am gerddoriaeth draddodiadol yr Alban nad yw bob amser yn cysylltu enw Robert Burns â'r geiriau a osodwyd ar gyfer alawon adnabyddus megis 'Robin Adair', 'Auld Lang Syne', ac 'Afton Water'? Yr un mor anodd yw meddwl am lu o alawon Cymru, yn eu plith 'Tros y Garreg', 'Ar Hyd y nos', a 'Difyrrwch Gwŷr Harlech', heb gofio'r geiriau a luniwyd gan Ceiriog ar eu cyfer ganrif a chwarter yn ôl.

Pe bai Ceiriog wedi dewis barddoni yn Saesneg, y tebyg yw y byddai ei enw lawn mor hysbys yn 'Y byd Seisnig' heddiw ag ydyw enwau Moore a Burns!

FE GEIR syniad go dda wrth astudio cynnwys llyfrau megis **Cant o Ganeuon** (1863) a **Songs of Wales** (1873) beth oedd y prif gerddi a osododd Ceiriog ar gyfer rhai o alawon poblogaidd ei genedl, ond byddai'n fwy diddorol cael gwybod beth oedd swm ei gynnyrch barddonol a luniwyd yn arbennig i'w ganu.

Onid oedd ei fugeilgerdd 'Alun Mabon', - cantata i ddechrau, a wobrwyyd yn Aberdâr yn 1861, yn un o'r cynhyrchion hynny? Rhannwyd y gerdd honno yn 26 o rannau yn y gyfrol **Oriau'r Bore**, ond gan mai uwchben rhai o'r rhannau'n unig y nodir teitl alaw, y cwstiwn y mae'n rhaid ei ofyn yw tybed a fwriadwyd i weddiill y fugeilgerdd (ar wahân wrth gwrs i'r rhannau yn dwyn y pennawd

'Adroddawd') fod yn benillion i'w canu, ac ai cael eu llunio'n arbennig i ffitio alawon 'cenedlaethol' adnabyddus fu hanes y rhannau hynny?

Os felly, yr oedd hi'n bosibl trefnu perfformiad cyngerdd o 'Alun Mabon' ar lwyfannau ein gwlad ymhell cyn bod sôn am y perfformiad radio hanesyddol hwnnw ar Fedi 25, 1934 (dyddiad Rowland Lucas yn **The Voice of a Nation**), gyda'r gerddoriaeth wedi cael ei llunio ar gais Sam Jones gan Idris Lewis, a oedd ar y pryd yng ngwasanaeth cwmni'r British International Pictures yn Elstree.

Ar derfyn 'Alun Mabon' yn yr argraffiad cyntaf (arg. Isaac Clarke) o **Oriau'r Bore** (ond nid yn ail arg. Hughes a'i Fab), ceir y nodyn:-

*Sonia rhai cerddorion am berfformio y gantawd uchod. Mae yn nwylo yr awdur gopi talfyredig i'r diben hwnnw, os bydd y cyfeillion yn dewis ei gael.*

Hyd at yn ddiweddar, 'roedd y cyfeiriad uchod at 'gopi talfyredig' yn gryn ddirgelwch i mi, ond credaf yn sicr erbyn hyn mai adrannau ar gyfer adroddwr, a phenillion i'w canu ar alawon Cymreig oedd y cyfan o 'Alun Mabon' yn ystod oes Ceiriog, ar wahân i Ran 19, yn dri phennill, yn cychwyn â'r geiriau 'Mi geisiaf eto ganu cân,' sef geiriau y lluniwyd gosodiad cerddorol ar eu cyfer dan y teitl 'O tyrd yn ôl fy ngeneth wen' gan Gomer Powell, Wrecsam, a'i gyhoeddi yn Rhuthun gan Isaac Clarke yn ystod y cyfnod 1862-1865.

Dysgwyd y gân hon (y dywedir iddi gael ei llunio'n arbennig ar gyfer Llew Llwyfo) i blant o'm cenedlaeth i yn rhai o ysgolion cynradd Môn rai blynyddoedd cyn i gwmni Snell gyhoeddi gosodiad Idris Lewis o'r un geiriau dan y teitl 'Bugail Aberdyfi' yn 1943!

YN FUAN ar ôl marw Ceiriog yn 1887, 'roedd cryn 'fynd' ar 'Alun Mabon' ar lwyfannau'r genedl, gyda hwn a'r llall yn cael ei demtio i ychwanegu pennill neu ddau at y fugeilgerdd mewn rhai rhannau o'r wlad!

Perfformiad felly a gafwyd yn ysgoldy y Bwrdd, Y Bala, yn ystod mis Mawrth 1890, dan nawdd Cymdeithas Bechgyn y Bala, pryd y disgrifiwyd y fugeilgerdd fel gwaith 'Trefnedig i'w adrodd a'i ddadgan', yr adrodd gan 'Yr Hanesydd', a'r alawon Cymreig yn cael eu canu gan 'Y

## HUW WILLIAMS ar fardd y piano CEIRIOG - Y CANIADWR MAWR

Perorion'.

Hoffwn gredu wrth edrych ar gopi o raglen y cyfarfod hwn sydd erbyn hyn yn fy meddiant - copi wedi ei argraffu gan Davies ac Evans, 'Seren' Office (32t) - mai rhywbeth tebyg oedd y cyflwyniad i'r hyn a dderbyniodd sêl bendith Ceiriog yn ystod ei oes, - ar wahân i'r ychwanegiadau "Er mwyn gwneud y cysylltiadau yn ychydig haws i'w deall", ys dywedir yn y rhagair.

Cenid Rhan II ('Ar fin mynydd ganwyd ef') ar yr alaw 'Blodau'r Grug'; rhan V ('O! gwyn ei fyd yr hwn nis gŵyr') ar 'Blodau'r Cwm'; a rhan VI ('Pan welais gyntaf Menna Rhên') ar 'Y Deryn Pur', a chenid eraill o'r penillion ar alawon megis 'Torïad y dydd', 'Mentra Gwen', 'Y Gwenith Gwyn', 'Morfa Rhuddlan', 'Yn iach i ti Gymru', a 'Dafydd y Garreg Wen', nad oes unrhyw gyfeiriad atynt ar gyfer 'Alun Mabon' yn fy nghopi i o **Oriau'r Bore**.

Ond mae mydr y cerddi yn awgrymu'n bendant iawn i mi mai'n hollol fwriadol ar gyfer yr alawon hynny y lluniodd y bardd rai o'r gwahanol rannau.

Ond beth am osodiad adnabyddus Idris Lewis o'r fugeilgerdd, a luniwyd cyn i'r cyfansoddwr gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cerdd i'r BBC yng Nghaerdydd, i olynu Reginald Redman yn niwedd 1935? Yr wyf eisoes wedi adrodd hanes llunio'r gosodiad hwnnw fel y'i cefais gan y diweddar Sam Jones (gw. rhifyn 16 Chwefror 1972 o'r **Cymro**), ond mae'n anodd peidio â gofyn a oedd Idris Lewis yn drwm dan ddylanwad ambell ddarn o fiwsig pan luniodd rai o'r gosodiadau?

Ynglŷn â 'Cân yr arad goch', er enghraifft, a ddisgrifir ar y copi argraffedig fel unawd wreiddiol gan Idris Lewis, clywais y diweddar Nansi Richards (Telynores Maldwyn) yn dweud bod Edward, brawd i'w mam, yn arfer canu cân bur debyg iddi, ar yr un geiriau, yn ystod nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Ni allwn ond dyfalu beth oedd yr alaw honno!

Nid oes angen craffter arbennig i sylwi ar y tebygrwydd rhwng unawd Idris Lewis ar gyfer llais S/T, dan y teitl 'Bugail Aberdyfi', a'r miwsig a luniodd Gomer Powell ar gyfer yr un geiriau tua deng mlynedd a thrigain yn flaenorol.

RAI blynyddoedd yn ôl, cefais gipolwg ar ohebiaeth ddiddorol a fu rhwng Mrs O.M. Williams,

Pennant, Rhuthun, ac Idris Lewis ar y mater hwn rhwng Ebrill a Thachwedd 1947, pan oedd y cyfansoddwr yn Gyfarwyddwr Cerdd Rhanbarth Cymru o'r BBC.

Gofynnodd Mrs Williams iddo'n gyntaf a oedd yn ystyried bod cerddoriaeth 'Bugail Aberdyfi' yn wreiddiol, ai ynteu trefnu alaw a goid yng Nghymru yn y ganrif diwethaf ar yr un geiriau a wnaethai? Meddai Idris Lewis yn ei atebiad i'w llythyr:-

....With regard to 'Bugail Aberdyfi', in the early days, I had put this tune down as an old Welsh Air, having forgotten the circumstances under which it was composed. Before publishing the song, however, I made extensive research and to my surprise found that it was an original tune which I had written especially for the lyric.

Gan nad oedd Mrs Williams yn gwbl fodlon ar yr ateb a gafodd, gofynnodd mewn llythyr pellach at Idris Lewis a oedd ef yn gyfarwydd â gosodiad Gomer Powell. Meddai yntau yn ei atebiad dyddiedig Tachwedd 28, 1947:-

....I feel I must explain your reference to 'Bugail Aberdyfi'. Many of the tunes in 'Alun Mabon' were either founded on Welsh airs or were actually Welsh Airs, and while 'Bugail Aberdyfi' was in MS I had thus taken it for granted that I must have had it from an Old Book of Welsh Airs which I had drawn upon while writing the work. When I came to publish the song, however, I went carefully through the aforesaid book and discovered that I had not used a Welsh Air for the Song, but that it was an original tune of my own.

Er nad yw'n glir oddi wrth ei llythrau beth yn union oedd tystiolaeth Idris Lewis ynglŷn â 'Bugail Aberdyfi', fe sylwir bod y cyfansoddwr yn cydnabod mai alawon Cymeig yw sylfaen amryw o'r rhannau yn 'Alun Mabon'.

Ac fe ddengys y copi llawysgrif o'r fugeilgerdd sydd ym meddiant y BBC yn Llandaf bod llawer o'r alawon yng ngosodiad Idris Lewis naill ai yn alawon Cymreig, neu ynteu yn alawon wedi eu seilio ar rai o'n caneuon traddodiadol.

A pha ryfedd hynny, pan gofir bod llawer o'r alawon yn cael eu hawgrymu'n naturiol gan fydr geiriau a luniwyd gan brydydd a ddisgrifiwyd i drwch y blewyn fel 'Bardd y piano; bardd y gyngerdd.'